# Prosiect i Adnewyddu'r Cysylltiad rhwng Cei Connah a Bodelwyddan



## Cwestiynau cyffredin

### Pam y mae angen y gwaith hwn?

Mae National Grid Electricity Transmission yn adnewyddu adran 30km o'r linellau trydan foltedd uchel, uwchben, sydd rhwng is-orsafoedd Cei Connah a Bodelwyddan. Gwneir hyn fel y gellir trawsyrru mwy o drydan a chysylltu mwy o brosiectau ynni glân yng Nghymru a Lloegr â rhwydwaith trydan y DU.

Mae'r prosiect yn rhan o gyfres o gynlluniau uwchraddio cylchedau sy'n digwydd ledled Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith trawsyrru trydan yn dal yn gadarn ac yn fforddiadwy wrth i ni anelu at sero net.

Bydd y gwaith adnewyddu hanfodol hwn yn sicrhau diogeledd ynni hirdymor ar y rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel, a'r rhwydwaith dosbarthu lleol sy'n cysylltu â chartrefi a busnesau.

### Pa ganiatâd sydd gennych i wneud y gwaith?

Rydym yn gwneud y gwaith hwn o dan yr hawliau datblygu a ganiateir i National Grid ar gyfer seilwaith cenedlaethol hanfodol. Mae hyn yn golygu nad oes angen caniatâd cynllunio arnom i wneud y gwaith adnewyddu. Rydym yn cydweithio'n agos â sefydliadau allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau'r caniatadau a'r trwyddedau penodol eraill y mae arnom eu hangen i wneud ein gwaith.

Lle mae angen i ffyrdd gael eu cau dros dro, rydym yn cydweithio â Chynghorau Sir y Fflint a Dinbych i drefnu hynny a chynllunio llwybrau dargyfeirio.

Bydd angen inni groesi tir preifat i wneud y gwaith. Yn yr achosion hynny, rydym eisoes wedi bod yn siarad â pherchnogion y tir perthnasol.

### Pa waith rydych chi wedi'i wneud hyd yma?

Cyn ein prif waith adeiladu sy'n dechrau ym mis Gorffennaf 2025, rydym wedi gwneud sawl peth i baratoi ein hardaloedd gwaith a sicrhau y gall y prosiect fod mor ddiogel ac effeithlon ag y bo modd. Roedd hyn yn cynnwys:

- tocio coed a llystyfiant arall o gwmpas peilonau ac o dan linellau uwchben
- lledu cegau ffyrdd mewn mannau cul
- gosod sgaffaldiau a thracffyrdd mewn caeau.

Yn ogystal, rydym wedi cynnal nifer o arolygon ac asesiadau (yn cynnwys arolygon ecolegol ac archaeolegol), er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau ein heffaith ar yr ardal leol a'r amgylchedd.

### Pryd fydd y gwaith yn digwydd?

Bydd y prif gyfnod adeiladu'n dechrau ym mis Gorffennaf 2025 ac yn parhau tan fis Rhagfyr 2026, pryd y caiff yr holl waith ei gwblhau.

### Beth mae'ch gwaith yn ei gynnwys?

Rydym yn newid yr holl wifrau (neu ddargludyddion) ar y llinell uwchben, yn cynnwys y wifren ddaearu sydd ar frig y peilonau. Yn ogystal, rydym yn newid yr ynysyddion a'r gwaith dur sy'n cysylltu'r gwifrau â'r peilonau. Lle bo angen, byddwn yn ailbaentio gwaith dur.

Rydym yn newid cylchedau ar y naill ochr a'r llall i'r llinell uwchben ar wahân. Gwneir hyn fel y gall yr ochr arall aros yn 'fyw', sy'n golygu y bydd y gwifrau'n dal i drawsyrru trydan.

### Sut rydych chi'n newid y gwifrau?

Rydym yn defnyddio proses o'r enw tynnu ceblau, a wneir gan beirianwyr medrus iawn. Mae'n ddull cymhleth ac mae'n rhaid ei gynllunio'n ofalus i sicrhau bod y gwifrau newydd yn cael eu gosod yn ddiogel ac yn gywir.

Gan amlaf, gosodir y gwifrau sy'n cario'r trydan mewn adrannau o ryw 10 neu fwy o beilonau ar y tro. Rydym yn newid yr adrannau hyn trwy dynnu'r cebl newydd i fyny ar y peilonau â pheiriannau. Mae gennym safleoedd gwaith o'r enw 'safleoedd tynnu' a 'safleoedd tensiynu' ar bob pen i bob adran o beilonau.

Lle bo angen, rydym yn defnyddio sgaffaldiau dros dro a rhwydi i amddiffyn a gosod ceblau dros rwystrau fel ffyrdd, rheilffyrdd ac afonydd.

## A fydd y llinell yn edrych yn wahanol ar ôl ei hadnewyddu?

Ar ôl ei hadnewyddu bydd y llinell yn edrych bron yn union yr un fath â'r llinell bresennol. Fodd bynnag, bydd y peilonau'n cario llai o wifrau. Ar hyn o bryd, mae pob braich ar y peilonau'n cario pedair gwifren. Erbyn hyn, oherwydd datblygiadau technolegol, gallwn drawsyrru mwy o bŵer nag o'r blaen gan ddefnyddio dim ond tair gwifren ar bob braich.

## Pa waith fyddaf i'n ei weld?

Yn ystod y gwaith adnewyddu, gall pobl ddisgwyl ein gweld ni'n creu ac yn gweithio ar safleoedd adeiladu newydd, dros dro, ar hyd llwybr y peilonau. Bydd ein timau'n mynd a dod i'r safleoedd hyn, gan gludo'r offer a'r peiriannau y bydd arnom eu hangen.  Mae hyn yn cynnwys symud a storio drymiau mawr sy'n cario'n gwifrau.

## Pam y mae angen creu cyffyrdd siâp cloch a gosod tracffyrdd?

Er mwyn paratoi ar gyfer ein prif waith, rydym wedi lledu ffyrdd mynediad mewn rhai mannau trwy greu cyffyrdd siâp cloch (bellmouth widening) fel y gall cerbydau fynd at y llinell drydan uwchben yn ddiogel ac yn hwylus. Mae gwneud y gwaith hwn cyn y prif waith adnewyddu peilonau, wedi ein helpu i greu llai o anhwylustod. Rydym wedi gosod tracffyrdd dros dro hefyd i greu llwybrau mynediad at y llinell drydan uwchben.

## A fydd llawer o draffig adeiladu?

Bydd faint o draffig fydd yn mynd a dod at y peilonau'n dibynnu ar leoliad y gwahanol beilonau a natur ein gwaith yno. Efallai y gwelwch gynnydd yn y traffig ar rai cyfnodau yn ystod ein gwaith ond byddwn yn rheoli'r holl symudiadau rhag iddynt darfu fwy nag sydd raid ar ffyrdd yr ardal.

## A fydd angen cau ffyrdd?

Bydd angen i rai ffyrdd gael eu cau dros dro fel rhan o'n gwaith. Ni fyddwn yn cau ffyrdd os gallwn beidio, ond weithiau bydd hynny'n angenrheidiol er mwyn cadw defnyddwyr y ffyrdd a'n timau ni'n ddiogel.

Pan fydd angen cau ffyrdd, byddwn yn defnyddio arwyddion i roi gwybod i bobl ymlaen llaw ac yn anfon llythyrau at drigolion a busnesau lleol. Byddwn hefyd yn ceisio trefnu mynediad hanfodol ar gyfer y trigolion tra bydd y ffyrdd wedi cau, os gellir gwneud hynny'n ddiogel.

## Gyda phwy rydych chi'n gweithio ar y prosiect?

Mae National Grid yn cydweithio â nifer o bartneriaid ar gontract i gyflawni ei brosiectau allweddol. Gwneir gweithgarwch paratoi a phrif waith y prosiect hwn o dan arweiniad MGroup, darparwr gwasanaethau sy'n cydweithio â rhwydweithiau ynni cenedlaethol a sefydliadau cyhoeddus i atgyweirio, adnewyddu, ailwampio a chynnal seilwaith nwy, trydan ac ynni gwyrdd y wlad, gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio er mwyn hwyluso'r newid i economi sero net.

## A fydd y gwaith yn effeithio ar allu pobl i fynd a dod i'w heiddo?

Os bydd ein gwaith yn effeithio ar y gallu i fynd a dod i eiddo, byddwn yn cysylltu â'r perchnogion ymlaen llaw i drafod ac i wneud trefniadau ar gyfer mynd a dod.

## A fydd hyn yn effeithio ar gyflenwadau trydan i gartrefi a busnesau?

Rydym yn cydweithio â SP Energy Networks (SPEN), sy'n rhedeg y rhwydwaith trydan lleol, i leihau'r effeithiau ar bobl a busnesau lleol. Os bydd angen diffodd y trydan dros dro unrhyw bryd, bydd pobl yr ardal yn cael gwybod a chedwir mewn cysylltiad â nhw.

## A fydd angen i chi gau llwybrau troed?

Mae ein llinell uwchben yn croesi rhai llwybrau sydd â hawliau tramwy cyhoeddus a hawliau tramwy caniataol.  Lle bo angen, byddwn yn cau neu'n dargyfeirio llwybrau troed, dros dro, er diogelwch y cyhoedd wrth i ni weithio uwchben.  Byddwn ni a'r cyngor lleol yn dod i gytundeb ymlaen llaw cyn cau llwybrau troed a, lle gallwn, byddwn yn rhoi gwybod i'r cymunedau lleol cyn eu cau neu eu dargyfeirio. Fe wnawn ein gorau i greu cyn lleied â phosibl o anhwylustod wrth wneud ein gwaith.

## Beth yw'ch oriau gweithio?

Gan amlaf, byddwn yn gweithio ar ddyddiau'r wythnos rhwng 7am a 6pm gan geisio creu cyn lleied o drafferth ag y bo modd. Gall fod rhaid i ni newid amserau ein gwaith.

## Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i warchod yr amgylchedd?

Cyn dechrau ar y prosiect, cynhaliwyd nifer o arolygon ac asesiadau o'r ardaloedd y gallai ein gwaith effeithio arnynt. Bwriad hyn oedd sicrhau ein bod yn deall yr amgylchedd lle bydd ein gwaith yn digwydd. Rydym wedi trafod canfyddiadau'r arolygon a'r asesiadau gyda'r sefydliadau perthnasol yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol ac â pherchnogion y tiroedd hefyd er mwyn sicrhau, lle bo modd, ein bod yn lleihau unrhyw effaith bosibl ar yr amgylchedd.

## Sut mae cysylltu â chi?

Os oes gennych ryw gwestiwn am ein gwaith, gallwch gysylltu â ni trwy'r ebost yn **connahsquay@nationalgrid.com** neu trwy ffonio **0800 138 5409**.

Mae'r llinell ffôn ar gael 9am–5:30pm, Llun–Gwener.  Os gofynnir i chi, gadewch neges â'ch enw a rhif cyswllt ac fe gysylltwn ni â chi cyn gynted ag y gallwn.

nationalgrid